Archwilio Cymru
Audit Wales

# Twristiaeth Gynaliadwy – Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2904A2022

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog fel rhan o’r gwaith a wnaed yn unol ag adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw’r Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru yn ysgwyddo unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac o ran unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae adran 45 o’r Cod yn nodi sut y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae Bannau'r Dyfodol yn cynnwys agenda uchelgeisiol sy'n adeiladu ar bartneriaethau sy'n bodoli eisoes, ond bydd yr Awdurdod yn ei chael yn anodd gwireddu'r weledigaeth hon oni bai iddo fynd ati'n effeithiol i dargedu adnoddau, i feithrin capasiti, ac i ddylanwadu'n llwyddiannus ar ymddygiad i reoli effaith twristiaeth

Adroddiad cryno 4

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

Mae Bannau'r Dyfodol yn cynnwys agenda uchelgeisiol sy'n adeiladu ar bartneriaethau sy'n bodoli eisoes, ond bydd yr Awdurdod yn ei chael yn anodd gwireddu'r weledigaeth hon oni bai iddo fynd ati'n effeithiol i dargedu adnoddau, i feithrin capasiti, ac i ddylanwadu'n llwyddiannus ar ymddygiad i reoli effaith twristiaeth 7

Atodiadau

Atodiad 1: methodoleg 13

Atodiad 2: twristiaeth gynaliadwy ym mharciau cenedlaethol Cymru 14

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Beth y gwnaethom ei adolygu, a pham?

1 Mae tri pharc cenedlaethol Cymru yn gyrchfannau adnabyddus ar gyfer ymwelwyr, ac mae eu statws yn darparu delwedd brand gref sy'n estyn tu hwnt i'w ffiniau. Ar adeg pan fo niferoedd yr ymwelwyr yn cynyddu, mae awdurdodau pob un o'r parciau cenedlaethol wedi gweld cynnydd yn y galwadau am iddynt warchod rhinweddau arbennig eu parciau.

2 Ers tro, mae blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y parciau cenedlaethol wedi cynnwys ffocws ar dyfu twristiaeth a hamdden awyr agored mewn ffordd gynaliadwy, ac ar ymgysylltiad rhagweithiol â darparwyr twristiaeth i bennu sut y gallant gyfrannu at sicrhau cynaliadwyedd yr ardal.

3 Mae'r cyd-destun polisi ehangach hefyd yn cynnwys uchelgais Llywodraeth Cymru am i'r economi ymwelwyr 'dyfu twristiaeth er budd Cymru'[1]. Mae'r llythyr cylch gwaith strategol a gyhoeddwyd gan Weinidog Llywodraeth Cymru dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ym mis Mawrth 2021 yn cadarnhau rôl bwysig awdurdodau'r parciau cenedlaethol o ran datblygu twristiaeth a hamdden awyr agored cynaliadwy[2].

**Arddangosyn 1: diffiniad Sefydliad Twristiaeth y Byd y Cenhedloedd Unedig o dwristiaeth gynaliadwy**

UNWTO
World Tourism Organization

'Twristiaeth sy'n ystyried yn llwyr ei heffeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn awr ac yn y dyfodol, gan roi sylw i anghenion ymwelwyr, y diwydiant, yr amgylchedd, a'r cymunedau sy'n lletya ymwelwyr.'

Ffynhonnell: https://www.unwto.org/sustainable-development

[1] Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol, Gorffennaf 2018

[2] Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r Economi Ymwelwyr 2020-2025

4 Gall rheoli mynediad, twristiaeth a'i heffaith fod yn her i awdurdodau'r parciau cenedlaethol. O ran cyfran, ychydig iawn o dir y maent yn berchen arno o fewn y parciau cenedlaethol, ac nid ydynt yn rheoli'n uniongyrchol strategaethau twristiaeth a rheoli cyrchfan cenedlaethol na rhanbarthol[3] (ac eithrio Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sy'n sefydliad rheoli cyrchfan ochr yn ochr â Brecon Beacons Tourism). Daeth y tensiynau rhwng dau ddiben statudol a dyletswydd statudol awdurdodau'r parciau cenedlaethol i'r amlwg pan fu i ymwelwyr heidio i'r parciau mewn niferoedd nas gwelwyd eu tebyg o'r blaen pan ailagorwyd y parciau yn 2020.

5 O'r herwydd, mae COVID-19 wedi tanlinellu rôl bwysig awdurdodau'r parciau cenedlaethol o ran hyrwyddo a rheoli twristiaeth. Mae economi leol pob parc yn dibynnu'n helaeth ar dwristiaeth, ond mae angen ei rheoli mewn ffordd gynaliadwy i sicrhau nad yw'r dirwedd naturiol, bioamrywiaeth, na chymunedau lleol yn cael eu gorlethu a'u gadael, at ei gilydd, ar eu colled o'r herwydd.

## Beth y gwnaethom ei ganfod?

6 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn hwn: **A yw'r Awdurdod yn gwneud popeth y gall i reoli twristiaeth gynaliadwy'n effeithiol yn y Parc Cenedlaethol?** Cynhaliwyd ein hadolygiad rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Chwefror 2022.

7 Yn gyffredinol, bu inni ganfod yr hyn a ganlyn: **Mae Bannau'r Dyfodol[4] yn cynnwys agenda uchelgeisiol sy'n adeiladu ar bartneriaethau sy'n bodoli eisoes, ond bydd yr Awdurdod yn ei chael yn anodd gwireddu'r weledigaeth hon oni bai iddo fynd ati'n effeithiol i dargedu adnoddau, i feithrin capasiti, ac i ddylanwadu'n llwyddiannus ar ymddygiad i reoli effaith twristiaeth.**

8 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau a ganlyn:

- mae cynllun rheoli drafft y Parc Cenedlaethol, Bannau'r Dyfodol, yn cynnwys agenda feiddgar ar gyfer twristiaeth gynaliadwy, ond nid oes gan yr Awdurdod gapasiti na systemau yn eu lle i wireddu ei weledigaeth uchelgeisiol;
- mae'r Awdurdod yn gweithio'n effeithiol drwy bartneriaethau ffurfiol, ond nid yw'n cydweithio i'r un graddau â chymunedau lleol;
- nid yw'r Awdurdod yn mynd ati'n effeithiol i ddylanwadu ar ymddygiad ymwelwyr na busnesau i reoli effaith twristiaeth.

[3] Deddf yr Amgylchedd 1995

[4] https://www.bannaubrycheiniog.org/yr-awdurdod/amdanom-ni/cynllun-rheoli2019r-parc-cenedlaethol/adolygiad-or-cynllun-rheoli/

# Argymhellion

Mae'r tabl isod yn rhestru'r argymhellion a bennwyd gennym yn sgil yr adolygiad hwn.

| Argymhellion |
| --- |
| **Gweledigaeth a rennir o dwristiaeth gynaliadwy**<br>A1 Rydym yn argymell bod yr Awdurdod:<br>• yn diffinio gweledigaeth a rennir o dwristiaeth gynaliadwy, ac yn cytuno arni, gan gynnwys Aelodau, swyddogion (gan gynnwys staff rheng flaen) a rhanddeiliaid perthnasol eraill yn llwyr yn y gwaith o lunio'r weledigaeth honno. |
| **Ailadeiladu capasiti staff twristiaeth**<br>A2 Rydym yn argymell bod yr Awdurdod:<br>• yn adolygu capasiti'r staff twristiaeth cyfredol yn unol â dyheadau Bannau'r Dyfodol, sef cynllun rheoli'r Parc Cenedlaethol;<br>• yn ailadeiladu'r capasiti twristiaeth a'r capasiti staffio i sicrhau bod modd cyflawni nodau Bannau'r Dyfodol;<br>• yn ystyried yr angen i gael capasiti staffio ychwanegol mewn meysydd arbenigol priodol, ee staff cyfathrebu a staff dadansoddi data. |
| **Gwella'r ymwneud â rhanddeiliaid**<br>A3 Rydym yn argymell bod yr Awdurdod:<br>• yn adeiladu ar ei weithgarwch cadarnhaol o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid (ee mapio rhanddeiliaid a'r Cynllun Llysgenhadon Busnes) i ddylanwadu ar randdeiliaid er mwyn iddynt gydweithio â'r Awdurdod i gyflawni nodau Bannau'r Dyfodol;<br>• yn ceisio dylanwadu ar ymddygiad ymwelwyr drwy gydweithio â busnesau a'u cynnwys yn y gwaith o gyflawni nodau Bannau'r Dyfodol. |

# Adroddiad manwl

## Mae Bannau'r Dyfodol yn cynnwys agenda uchelgeisiol sy'n adeiladu ar bartneriaethau sy'n bodoli eisoes, ond bydd yr Awdurdod yn ei chael yn anodd gwireddu'r weledigaeth hon oni bai iddo fynd ati'n effeithiol i dargedu adnoddau, i feithrin capasiti, ac i ddylanwadu'n llwyddiannus ar ymddygiad i reoli effaith twristiaeth

### Mae cynllun rheoli drafft y Parc Cenedlaethol, Bannau'r Dyfodol, yn cynnwys agenda feiddgar ar gyfer twristiaeth gynaliadwy, ond nid oes gan yr Awdurdod gapasiti na systemau yn eu lle i wireddu ei weledigaeth uchelgeisiol

9 Rhwng 17 Tachwedd 2021 a 4 Mawrth 2022, cynhaliodd yr Awdurdod ymgynghoriad ynghylch ei gynllun rheoli drafft, Bannau'r Dyfodol. Mae Bannau'r Dyfodol yn gynllun cynhwysfawr ac uchelgeisiol y mae'r Aelodau a'r swyddogion y bu inni eu cyf-weld a'u holi drwy arolwg yn gyffredinol yn meddwl yn uchel ohono. Mae'n cynnwys polisi penodol ar gyfer 'Twristiaeth Gynaliadwy' sy'n amlinellu gweledigaeth glir o dwristiaeth gynaliadwy ar gyfer y Parc Cenedlaethol ac yn cynnwys manylion am y ffordd y bydd y polisi'n cael ei roi ar waith, sut olwg fydd ar lwyddiant, a sut y bydd yr Awdurdod yn mesur cynnydd o ran ei amcanion. Mae hefyd yn cynnwys polisi penodol ar gyfer 'Mannau Prysur' sy'n disgrifio sut y mae'r Awdurdod yn bwriadu rheoli ei safleoedd lle ceir 'gordwristiaeth', rhywbeth sy'n arbennig o galonogol i'w weld.

10 Dywedodd yr Aelodau a'r uwch-swyddogion y bu inni siarad â nhw eu bod wedi cydweithio â rhanddeiliaid allweddol i lunio Bannau'r Dyfodol. Dywedodd llawer o'r aelodau staff rheng flaen y bu inni siarad â nhw eu bod wedi'u cynnwys yn effeithiol yn y broses o baratoi'r cynllun hwn, ond nid oedd hyn yn wir am bawb. Dywedodd rhai swyddogion wrthym na chawsant eu cynnwys mewn penderfyniadau pwysig sy'n ymwneud â'u meysydd arbenigol. Ac er bod Bannau'r Dyfodol yn mynegi gweledigaeth glir o dwristiaeth gynaliadwy ar gyfer y Parc, yn ymarferol, mae llawer o'r swyddogion a'r Aelodau y bu inni eu cyf-weld yn ei ystyried yn 'ideolegol', ac maent yn pryderu na fydd modd cyflawni elfennau o'r Cynllun o'r herwydd.

11 Dywedodd bron i bob un o'r swyddogion a'r Aelodau wrthym fod yr Awdurdod yn ei chael yn anodd cytuno ar ei flaenoriaethau yn gyffredinol, ac yn benodol o ran twristiaeth. Er y gwaith cadarnhaol i lunio Bannau'r Dyfodol, mae rhai swyddogion ac Aelodau'n cwestiynu a oes gan yr Awdurdod weledigaeth o dwristiaeth y cytunir arni, ac nid oedd eraill yn derbyn bod angen i'r Awdurdod reoli twristiaeth

gynaliadwy, gan honni 'na ddylai'r Awdurdod fod yn trafferthu rheoli ymwelwyr o gwbl'.

12 Mae gan awdurdodau parciau cenedlaethol ddau ddiben statudol o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995: gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol, a hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig [y Parc]. Os yw'r ddau ddiben hyn yn gwrthdaro, dylid rhoi mwy o bwys ar y cyntaf ('Egwyddor Sandford'), ond disgwylir i awdurdodau'r parciau cenedlaethol daro cydbwysedd effeithiol rhwng tensiynau'r ddau ddiben hyn. Fodd bynnag, roedd consensws ymhlith y swyddogion a'r Aelodau y bu inni siarad â nhw nad yw'r Awdurdod yn gwneud hyn yn dda ar hyn o bryd.

13 Mae ei bobl bob amser wedi bod yn un o gryfderau'r Awdurdod. Yn gyffredinol, mae swyddogion yr Awdurdod sy'n ymwneud â rheoli a hyrwyddo twristiaeth yn wybodus, yn brofiadol ac yn ymroddedig iawn. Mae'r Aelodau'n meddu ar ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ragorol o'r materion sy'n ymwneud â thwristiaeth gynaliadwy, gan gynnwys yr effaith ar yr hinsawdd, bioamrywiaeth, a chymunedau lleol. Bu i'r Awdurdod hefyd benodi Prif Weithredwr newydd ym mis Gorffennaf 2021, ac roedd y swyddogion y bu inni siarad â nhw yn canmol ei weledigaeth ar gyfer twristiaeth gynaliadwy, a'r trywydd yr oedd wedi'i bennu ar ei chyfer.

14 Serch hynny, mae capasiti'r Awdurdod i reoli ac i hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy wedi dirywio dros y blynyddoedd diwethaf. Collodd y rheolwr twristiaeth gynaliadwy ei swydd ym mis Ionawr 2021 fel rhan o raglen ailstrwythuro, ac nid oes neb wedi cymryd ei le. Mae llawer o aelodau staff eraill a oedd yn ymwneud â thwristiaeth a chyfathrebu wedi gadael yr Awdurdod dros y blynyddoedd diwethaf hefyd. Mae aelodau staff sy'n gweithio ym maes twristiaeth gynaliadwy yn dweud bod y diffyg capasiti hwn yn peri iddynt orfod 'ymladd tân' ac 'wynebu pob diwrnod fel y mae'n dod' yn hytrach na rhoi sylw i amcanion a phrosiectau hirdymor strategol. Mae mannau prysuraf y Parc, fel Pen y Fan a Bro'r Sgydau, yn safleoedd y mae llawer iawn o ymwelwyr yn mynd iddynt, ac roedd hyn yn arbennig o wir yn ystod 2020 a 2021 oherwydd pandemig COVID-19. Rhoddodd hyn bwysau sylweddol ar gyfleusterau'r Parc, gan gynnwys toiledau a gwaredu gwastraff. Mae diffyg capasiti wedi llesteirio'n sylweddol ymdrechion y swyddogion i reoli'r heriau sydd wedi dod i'w rhan yn sgil y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr a'r 'math newydd o ymwelydd' (y rheini a fyddai fel arfer yn mynd ar wyliau dramor ond sydd wedi dewis cael gwyliau yn y Deyrnas Unedig oherwydd y pandemig).

15 Yn benodol, oherwydd prinder staff cyfathrebu penodedig, ni all swyddogion weithio mewn ffordd strategol i rannu gwybodaeth â'r cyhoedd i helpu i reoli ac i atal problemau gordwristiaeth ac ymddygiad problematig gan y cyhoedd. Mae swyddogion yn teimlo bod eu cyfathrebiadau â'r cyhoedd yn rhy negyddol ar hyn o bryd, a'u bod yn rhwystro pobl rhag ymweld â safleoedd poblogaidd sy'n aml yn denu llu o ymwelwyr, a rheoli effaith negyddol gwersylla gwyllt. Maent yn credu y dylai'r negeseuon ganolbwyntio mwy ar fanteision ymweld â'r Parc Cenedlaethol mewn ffordd wybodus a rheoledig. Dywedodd swyddogion ac Aelodau'r Awdurdod wrthym hefyd nad ydynt yn credu bod cylch cyllido blynyddol Llywodraeth Cymru'n

caniatáu i’r Awdurdod baratoi cynlluniau hirdymor i fuddsoddi mewn seilwaith i gefnogi twristiaeth gynaliadwy.

16 O ganlyniad i’r heriau hyn, canfuom fod ysbryd y staff, a’u cydnerthedd, yn isel. Mae llawer o aelodau staff hyfedr a phrofiadol wedi gadael, ac mae perygl y gallai’r Awdurdod golli mwy o bobl os nad yw newid sefydliadol cadarnhaol ac amodau gwaith yn gwella. Dywedodd swyddogion wrthym fod rhai rhwystrau pwysig rhag ailadeiladu capasiti. Er enghraifft, mae’r Awdurdod yn dibynnu gormod ar gyflogi staff ar gontractau tymor byr a chontractau dros dro, yn hytrach na swyddi parhaol amser llawn, ac mae hynny’n cyfyngu ar ei allu i gynllunio i gyfathrebu ac i reoli twristiaeth yn strategol neu yn y tymor hir. Yn sgil cymeradwyo cynllun dirprwyo diwygiedig yr Awdurdod ym mis Chwefror 2021, rydym yn disgwyl y bydd yn helpu i fynd i’r afael â’r broblem hon ac yn adeiladu capasiti priodol o ran staff twristiaeth.

17 Ar nodyn mwy cadarnhaol, rydym wedi arsylwi ar rai enghreifftiau o arferion da a dulliau arloesol a ddatblygwyd gan yr Awdurdod. Un enghraifft yw’r timau ‘Cwrdd a Chroesawu’ sydd wedi’u lleoli yn yr ardaloedd mwyaf poblogaidd i roi gwybodaeth a chyngor i bobl, yn enwedig y rhai sy’n llai cyfarwydd â’r Parc Cenedlaethol. Cafodd y timau hyn eu hariannu gan arian caledi a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig. Er mai arian tymor byr sydd ar gael ar gyfer y gwasanaethau hyn ar hyn o bryd, rydym yn deall na fydd yr arian hwn yn cael ei ddarparu yn y tymor hir ac felly mae cynaliadwyedd y timau ‘Cwrdd a Chroesawu’ yn parhau i fod yn destun pryder.

18 Mae’r Awdurdod hefyd wedi dechrau cynnal digwyddiadau i annog pobl i fwynhau gweithgareddau mwy cynaliadwy nad ydynt yn andwyol i’r amgylchedd, fel Gŵyl yr Awyr Dywyll.

## Mae’r Awdurdod yn gweithio’n effeithiol drwy bartneriaethau ffurfiol, ond nid yw’n cydweithio i’r un graddau â chymunedau lleol

19 I hybu cynnydd o ran twristiaeth gynaliadwy, mae’n hanfodol bod yr Awdurdod yn cydweithio’n dda â’i bartneriaid. Yn wahanol i’r ddau barc cenedlaethol arall, mae’r Awdurdod mewn sefyllfa unigryw yn rhinwedd ei rôl fel Sefydliad Rheoli Cyrchfan (ochr yn ochr â Brecon Beacons Tourism) ar gyfer ei ddalgylch. O’r herwydd, mae ganddo fwy o ddylanwad nag awdurdodau’r parciau cenedlaethol eraill o ran rheoli negeseuon a hyrwyddo twristiaeth yn ei ardal. Tybir bod perthynas yr Awdurdod â Brecon Beacons Tourism a Chroeso Cymru yn gadarn ac yn effeithiol.

20 O ystyried effaith twristiaeth ar gymunedau lleol, mae’n hollbwysig meithrin cysylltiadau cadarnhaol a mynd ati’n effeithiol i gynnwys pobl leol yng ngwaith yr Awdurdod. Mae’r Awdurdod yn ymgysylltu â llawer o grwpiau gwahanol, a bu iddo fapio ei ddull o ymgysylltu â rhanddeiliaid pan oedd yn paratoi cynllun rheoli Bannau’r Dyfodol, cynllun a oedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Mawrth 2022. I sicrhau bod gan gymunedau lleol ‘sedd wrth y bwrdd’ ochr yn ochr â phartneriaid eraill, sefydlwyd sefydliad corfforedig elusennol o’r enw Waterfall Country Wales ym mis Ionawr 2020. Tybir hefyd fod y

Fforwm Mynediad Lleol yn gyfrwng effeithiol i roi cyngor i'r Awdurdod am wella mynediad i'r Parc. Ac mae'r cynllun 'Cynghreiriau Gwledig' hefyd yn uchel ei barch. Dywedodd y rheini a gafodd eu cyf-weld wrthym ei fod wedi helpu i wella'r cysylltiadau â chymunedau yng nghyd-destun twristiaeth.

21 Fodd bynnag, er y gwaith ymgysylltu cadarnhaol hwn, mynegodd nifer o swyddogion ac Aelodau bryderon nad yw cymunedau lleol wedi cael llawer o fudd, os o gwbl, o'r gwaith, a bod y cynnydd yn niferoedd yr ymwelwyr yn parhau i effeithio'n andwyol arnynt.

22 Mewn llawer o achosion, canfuom nad yw'r Awdurdod yn gallu dylanwadu'n effeithiol ar ei bartneriaid allweddol ar hyn o bryd. Gellir priodoli hyn yn rhannol i natur gymhleth daearyddiaeth y Parc. Mae'r Parc yn cwmpasu ardaloedd cyfanswm o naw awdurdod lleol, ac mae'r Awdurdod yn cynnwys aelodau o saith ohonynt (Powys, Torfaen, Sir Fynwy, Blaenau Gwent, Sir Gaerfyrddin, Merthyr Tudful, a Rhondda Cynon Taf). O'i gymharu â hynny, mae Parc Cenedlaethol Eryri yn cwmpasu ardaloedd dau awdurdod lleol ac mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cwmpasu un. Nid yw'r Awdurdod ychwaith yn berchen ar y rhan fwyaf o dir y Parc Cenedlaethol, ac mae safleoedd pwysig yn eiddo i gyrff elusennol fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, neu dirfeddianwyr preifat.

23 Mae gwaith mwy anffurfiol a rheolaidd i ymgysylltu â chymunedau lleol o ddydd i ddydd yn anghyson. Dywedodd un swyddog wrthym: 'Weithiau, bydd clercod cynghorau tref a chymuned yn cysylltu â ni i roi gwybod i ni am ddigwyddiadau a phethau sy'n digwydd yn y grŵp. Nid oes proses gyfathrebu ar gael i ddeall gwybodaeth sy'n dod i law o'r cymunedau. Cafodd ein rhaglen allgymorth ei chwtogi – ychydig iawn o bresenoldeb a gwelededd sydd gennym. Rydym yn dod yn fwy a mwy caeedig ac ynysig.'

24 Mae rhai problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol, fel gyrru beiciau modur oddi ar y ffyrdd, tu hwnt i bwerau gorfodi'r Awdurdod, a rhaid i'r awdurdodau lleol neu'r heddlu (neu'r ddau) fynd i'r afael â nhw. Dywedodd swyddogion ac Aelodau'r Awdurdod wrthym nad yw problem gyrru beiciau modur oddi ar y ffyrdd yn cael sylw effeithiol ar hyn o bryd oherwydd ei bod yn 'syrthio i'r bylchau' rhwng gwahanol asiantaethau.


25 Ceir consensws ymhlith swyddogion ac Aelodau nad yw seilwaith trafnidiaeth y Parc Cenedlaethol yn ddigonol i helpu i reoli twristiaeth yn gynaliadwy. Yn benodol, mae'r broblem sy'n bodoli ers tro o ran trafnidiaeth gyhoeddus wael yn parhau i fod yn rhwystr mawr rhag gwella mynediad a lleihau tagfeydd traffig. I fynd i'r afael â hyn, mae angen i'r Awdurdod, y cynghorau lleol a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol gydweithio. Ers sawl blwyddyn, mae'r Awdurdod wedi rhoi blaenoriaeth i wella trafnidiaeth gyhoeddus i gael mynediad i'r Parc, ac mae Bannau'r Dyfodol yn cynnwys nodau penodol o ran trafnidiaeth gynaliadwy, yn enwedig i deithio i leoliadau prysuraf y Parc. Er enghraifft, un targed yw bod 'o leiaf 75% o ymweliadau â'r Parc yn elwa o drafnidiaeth gynaliadwy o ryw fath, gan gynnwys cerbydau trydan neu drafnidiaeth gyhoeddus'. Serch hynny, yn hanesyddol, mae cynnydd yn y maes hwn wedi bod yn gyfyngedig, ac mae angen buddsoddiad sylweddol a chytundeb rhwng partneriaid allweddol er mwyn gwneud cynnydd.

## Nid yw'r Awdurdod yn mynd ati'n effeithiol i ddylanwadu ar ymddygiad ymwelwyr na busnesau i reoli effaith twristiaeth

26 I ddylanwadu ar ymddygiad y cyhoedd, mae angen i'r Awdurdod ddefnyddio data i ddeall 'profiad yr ymwelydd'. Mae polisi Mannau Prysur cynllun Bannau'r Dyfodol yn datgan y bydd cynnydd yn cael ei fesur drwy gynnal arolygon ymhlith ymwelwyr (yn ogystal ag adolygu gwefannau, fel TripAdvisor). Mae'r Awdurdod yn casglu data o rai o'i ganolfannau ymwelwyr, ond nid yw'r data hyn yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd oherwydd bod llai o gapasiti ar gael i ddadansoddi data. Rydym yn gwybod bod yr Awdurdod yn bwriadu ailadeiladu'r capasiti hwn, a byddem yn disgwyl iddo roi blaenoriaeth briodol i hyn o fewn y strwythur staffio newydd.

27 Mae'n hollbwysig dylanwadu ar bartneriaid yn y sector preifat i sicrhau bod twristiaeth yn fwy cynaliadwy. Yn gyffredinol, ceir perthynas gadarnhaol rhwng yr Awdurdod a busnesau twristiaeth lleol. Canfu ein harolwg ymhlith busnesau twristiaeth ym mharciau cenedlaethol Cymru fod gan fusnesau feddwl mawr o waith yr Awdurdod i hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy, yn enwedig o'i gymharu ag awdurdodau'r ddau barc cenedlaethol arall (**Arddangosyn 2**). Mae'r swyddogion a'r Aelodau y bu inni siarad â nhw yn priodoli hyn i gynllun Llysgenhadon Busnes yr Awdurdod a'i waith i feithrin ac i gryfhau'r berthynas hon.

**Arddangosyn 2: barn busnesau twristiaeth am y modd y mae awdurdodau tri pharc cenedlaethol Cymru'n hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy**





Sylfaen Eryri = 100, Bannau Brycheiniog = 56, Arfordir Penfro = 41

Ffynhonnell: Arolwg Archwilio Cymru ymhlith busnesau twristiaeth Cymru, Ionawr 2022

28 Fodd bynnag, er bod barn busnesau twristiaeth am y modd y mae'r Awdurdod yn hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy yn gadarnhaol ar y cyfan, mae eu barn am agweddau eraill ar y ffordd y mae'r Awdurdod yn mynd i'r afael â thwristiaeth gynaliadwy yn llai cadarnhaol (**Arddangosyn 3**). Er bod ymatebion cadarnhaol ar eu huchaf ym Mannau Brycheiniog o blith awdurdodau'r tri pharc cenedlaethol, dim ond 38% o'r busnesau twristiaeth a ymatebodd i'n harolwg oedd yn credu bod yr Awdurdod wedi taro'r cydbwysedd cywir rhwng ei ddau ddiben. Hefyd, dim ond 21% o'r ymatebwyr oedd yn credu bod yr Awdurdod yn dda am hyrwyddo pwysigrwydd twristiaeth gynaliadwy ymhlith y cyhoedd, ac mae'n bosibl y gellir priodoli hyn i effaith y gostyngiad yng nghapasiti'r staff twristiaeth a chyfathrebu, fel y nodir uchod.

**Arddangosyn 3: barn busnesau twristiaeth am y modd y mae'r Awdurdod yn mynd i'r afael â thwristiaeth gynaliadwy (Sylfaen = 56)**




Ffynhonnell: Arolwg Archwilio Cymru ymhlith busnesau twristiaeth Cymru, Ionawr 2022

# Atodiad 1

## Methodoleg

I osod sail ar gyfer ein casgliadau cyffredinol, aethom ar drywydd y llwybrau ymholi a ganlyn:

- A yw'r Awdurdod wedi rhoi'r weledigaeth, yr adnoddau a'r systemau cywir yn eu lle i hyrwyddo ac i reoli twristiaeth gynaliadwy yn effeithiol?
- A yw'r Awdurdod yn dylanwadu ar ymddygiad rhanddeiliaid allweddol i hyrwyddo ac i reoli effaith twristiaeth?

Cynhaliwyd ein hadolygiad yn ystod y gaeaf 2021-22. Roedd ein dulliau yn cynnwys y rhai a ganlyn:

- cydgrynhoi'r wybodaeth a'r profiad sy'n deillio o'n gwaith archwilio.
- cynnal arolwg a hyrwyddwyd drwy Groeso Cymru ymhlith busnesau twristiaeth yn y parciau cenedlaethol. Ledled Cymru, bu i 281 busnes ymateb i'n harolwg. O'u plith, roedd 204 wedi'u lleoli o fewn ffiniau un o barciau cenedlaethol Cymru, neu'n gweithredu'n bennaf o fewn y ffiniau hynny, ac roedd 61 wedi'u lleoli ym Mannau Brycheiniog. Mae'r data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar yr ymatebion sy'n ymwneud yn benodol â Bannau Brycheiniog.
- adolygu data a dogfennau pwysig.
- cyf-weld 11 swyddog a 10 Aelod yn yr Awdurdod.
- cyf-weld swyddogion allweddol mewn sefydliadau sy'n bartneriaid, gan gynnwys swyddogion twristiaeth cynghorau yn nalgylch y Parc.
- cadw mewn cysylltiad rheolaidd ag Is-adran y Tir, Natur a Choedwigaeth yn Llywodraeth Cymru.

# Atodiad 2

## Twristiaeth gynaliadwy ym mharciau cenedlaethol Cymru

Er bod pobl yn ymweld â'r parciau cenedlaethol am sawl rheswm, defnydd hamdden ac edmygu harddwch naturiol fel rheol, mae'r parciau hefyd yn gartref i ecosystemau nad oes modd eu hail-greu a chymunedau byw. Felly, yn aml, caiff twristiaeth ei disgrifio fel gwrthddywediad dyrys, lle mae twristiaeth yn denu ymwelwyr, yn sicrhau buddion economaidd, ac yn addysgu'r cyhoedd, ond lle mae presenoldeb yr ymwelwyr hynny'n peryglu'r gwaith o warchod safleoedd diwylliannol a naturiol parc cenedlaethol. Gan fod cyfradd twristiaeth mewn parciau cenedlaethol yn cynyddu, mae twristiaeth gynaliadwy – cael hyd i ffyrdd o annog twf twristiaeth, gan warchod diwylliant a bioamrywiaeth yr ardaloedd hyn ar yr un pryd – wedi dod yn fwy a mwy pwysig.

Drwy ein gwaith, rydym yn gwybod bod awdurdodau'r parciau cenedlaethol gyda'i gilydd yn meddu ar flynyddoedd lawer o brofiad o reoli niferoedd mawr o ymwelwyr. Maent yn cyflogi aelodau staff amrywiol sy'n ymgysylltu ag ymwelwyr o ddydd i ddydd, gan gyfoethogi profiadau'r ymwelwyr a helpu i hyrwyddo pwysigrwydd mwynhau'r ardaloedd hyn heb effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd naturiol. Er y gwaith cadarnhaol hwn, yn ystod ein hadolygiad o dwristiaeth gynaliadwy, canfuom rai materion cyffredin sy'n destun pryder i awdurdodau pob un o'r tri pharc cenedlaethol.

### Rhaid i barciau cenedlaethol Cymru daro cydbwysedd rhwng annog twristiaeth a gwarchod yr amgylchedd naturiol

Mae gan y tri pharc cenedlaethol ddau ddiben statudol a dyletswydd statudol. Mae'r dibenion a'r ddyletswydd yn gosod sail ar gyfer holl waith yr awdurdodau, ac maent yn fan cychwyn ar gyfer y cynlluniau a'r strategaethau a lunnir ganddynt – **Arddangosyn 4**.

**Arddangosyn 4: dibenion statudol a dyletswydd statudol awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru**

| | |
|---|---|
| Dibenion statudol | • Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol.<br>• Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd fwynhau a deall rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol. |
| Dyletswydd statudol | • Meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau sy'n byw yn y Parc Cenedlaethol. |

Ffynhonnell: Deddf yr Amgylchedd 1995

## Mae awdurdodau'r tri pharc cenedlaethol yn chwarae rôl bwysig o ran rheoli'r amgylchedd ac annog ymwelwyr i fwynhau'r awyr agored

Amcangyfrifir bod 12 miliwn o bobl yn ymweld â thri pharc cenedlaethol Cymru bob blwyddyn. Yn flynyddol, mae tri chwarter poblogaeth Cymru'n ymweld â pharc cenedlaethol i elwa ar fod allan yn yr awyr agored.

Mae hamdden a thwristiaeth yn bwysig i'r economi leol ac i iechyd a llesiant pobl. Mae hefyd angen i'r parciau cenedlaethol daro cydbwysedd rhwng y gofynion hyn a'u cyfrifoldebau dros warchod tir, anifeiliaid a chynefinoedd. Os ceir gwrthdaro rhwng y ddau ddiben hyn, rhoddir mwy o bwys ar warchod nag ar hamdden.

Mae'r tri awdurdod wedi cydnabod bod COVID-19 a COP26 wedi rhoi'r chwyddwydr ar yr argyfwng natur – mae mwy yn ymweld â pharciau cenedlaethol nag erioed o'r blaen, ond mae cynnydd yn niferoedd yr ymwelwyr yn niweidio bioamrywiaeth ac amgylcheddau unigryw'r parciau cenedlaethol. O'i hanfod, mae taro cydbwysedd rhwng anghenion y ddau ddiben yn anodd, ac mae awdurdodau pob un o'r parciau cenedlaethol wedi dweud wrthym eu bod yn ei chael yn anodd gwneud hynny.

Dywedodd yr ymatebwyr i'n harolwg ymhlith busnesau twristiaeth sydd wedi'u lleoli ym mharciau cenedlaethol Cymru wrthym fod gan yr awdurdodau rai cryfderau amlwg. Yn eu plith mae gwarchod ac amddiffyn yr amgylchedd naturiol, hyrwyddo rôl 'genedlaethol – Gymreig' y parciau, a hybu gweithgareddau a dewisiadau pan fydd pobl yn ymweld ag ardal parc cenedlaethol, fel llwybrau cerdded.

## Gan mwyaf, mae busnesau twristiaeth yn rhoi gwerth ar waith y parciau cenedlaethol, ond nid ydynt yn credu eu bod wedi taro'r cydbwysedd cywir rhwng eu dau ddiben statudol

Roedd y busnesau twristiaeth y bu inni eu holi drwy ein harolwg hefyd yn teimlo'n gadarnhaol ynghylch gwaith awdurdodau'r parciau cenedlaethol. Er enghraifft:


- roedd 95% o'r rheini a atebodd ein harolwg yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod parc cenedlaethol sy'n cael ei reoli'n dda yn bwysig i ddenu ymwelwyr;
- roedd 92% o'r busnesau hefyd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod gwarchod ac amddiffyn adnoddau naturiol a thwristiaeth yn gydnaws â'i gilydd;
- roedd 72% o'r busnesau'n credu bod twristiaeth gynaliadwy'n helpu eu busnesau, neu y bydd yn gwneud hynny.

Fodd bynnag, dim ond 29% o'r rheini a atebodd yr arolwg oedd yn cytuno bod awdurdod eu parc cenedlaethol lleol yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng gwarchod yr amgylchedd naturiol a hyrwyddo mwynhad o'r parc cenedlaethol ar hyn o bryd.

Mae ein harolwg ymhlith busnesau twristiaeth yn dangos bod lle i wella'r modd y mae awdurdodau'r parciau cenedlaethol yn ymgysylltu â'r sector preifat (**Arddangosyn 5**). Dim ond 31% o'r busnesau a atebodd ein harolwg a ddywedodd fod awdurdod eu parc cenedlaethol lleol wedi gofyn iddynt yn benodol am eu barn i'w helpu i siapio ei strategaeth ar gyfer twristiaeth gynaliadwy. Tua thraean y busnesau sy'n teimlo eu bod yn cael gwybod am waith y parc cenedlaethol, a'u cynnwys ynddo, a bod ganddynt berthynas waith dda ag awdurdod eu parc cenedlaethol lleol.

Nid yw tua hanner y busnesau'n credu ychwaith fod awdurdod eu parc cenedlaethol lleol yn dda am egluro'r hyn y gall busnesau ei wneud i helpu i gyflawni twristiaeth gynaliadwy. Dim ond 43% oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod awdurdod eu parc cenedlaethol lleol yn hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy'n effeithiol. Dim ond 18% oedd yn credu fod awdurdod eu parc cenedlaethol lleol yn dda am roi gwybod i'r cyhoedd am bwysigrwydd twristiaeth gynaliadwy – **Arddangosyn 5**.

**Arddangosyn 5: barn busnesau twristiaeth am y modd y mae awdurdodau'r parciau cenedlaethol yn mynd i'r afael â thwristiaeth gynaliadwy**




Ffynhonnell: Arolwg Archwilio Cymru ymhlith busnesau twristiaeth Cymru, Ionawr 2022[5]

## Mae'r rhan fwyaf o fusnesau twristiaeth yn ceisio gweithio mewn ffordd gynaliadwy ac yn cydnabod gwerth twristiaeth gynaliadwy

Yn ogystal â hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy, mae'n bwysig bod busnesau hefyd yn gweithio mewn ffordd gynaliadwy. Mae ymwelwyr heddiw'n fwy ymwybodol o'u gweithredoedd ac o'r effaith y gall y gweithredoedd hynny ei chael ar yr amgylchedd a'r gymdeithas. Felly, maent am weld mwy o fusnesau'n mynd ati i wneud rhywbeth. Bydd arferion cynaliadwy hefyd yn arbed arian yn y pen draw. Canfu ein harolwg yr hyn a ganlyn:

[5] Cawsom 281 o ymatebion i'n harolwg. O ran y cwestiynau penodol hyn, atebodd 280 y cwestiwn cyntaf, 224 yr ail, 277 y trydydd, 276 y pedwerydd, a 279 y pumed.

Mae dros 80% o'r busnesau y bu inni eu holi drwy ein harolwg yn hybu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ymwelwyr o rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol

Mae tua 70% o'r busnesau y bu inni eu holi yn hyrwyddo diwylliant a threftadaeth leol – e.e. annog defnydd o'r Gymraeg

Mae dros 80% o'r busnesau twristiaeth y bu inni eu holi yn ceisio lleihau'r gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi, ac ailgylchu mwy o wastraff

Mae bron i 80% o'r busnesau twristiaeth y bu inni eu holi yn ceisio defnyddio llai o ynni

Mae bron i 60% o'r busnesau twristiaeth y bu inni eu holi yn ceisio defnyddio llai o ddŵr, neu beidio â'i wastraffu

Mae ychydig mwy na 30% o'r busnesau twristiaeth y bu inni eu holi yn cynhyrchu eu hynni gwyrdd eu hunain

Mae 82% o'r busnesau twristiaeth y bu inni eu holi yn cyflogi pobl leol yn bennaf (50%) (ystyr lleol fan hyn yw pobl sy'n byw o fewn 15 milltir at y busnes)

Mae 60% o'r busnesau twristiaeth y bu inni eu holi yn prynu'r rhan fwyaf (75%) o'u cyflenwadau gan gynhyrchwyr lleol (ystyr lleol fan hyn yw cynhyrchwyr sydd wedi'u lleoli o fewn 30 milltir at y busnes)

## Nid oes gan awdurdodau’r parciau cenedlaethol adnoddau na phwerau i reoli niferoedd yr ymwelwyr, eu hymddygiad na’u heffaith, nac i ddylanwadu ar y pethau hyn

Yn hanesyddol, nid yw awdurdodau’r parciau cenedlaethol wedi chwarae rôl uniongyrchol o ran hyrwyddo twristiaeth na marchnata eu cyrchfannau. O ran cyfran, nid ydynt ychwaith yn berchen ar lawer iawn o dir. Maent yn un o blith nifer o gyrff sy’n ymwneud â thwristiaeth a gwarchod yr amgylchedd yn eu hardaloedd. Mae gormod o’r liferi strategol ar gyfer twristiaeth gynaliadwy yn nwylo sefydliadau a chyrff nad ydynt yn rhannu’r un weledigaeth na chyfrifoldebau o ran gwarchod amgylchedd y parciau cenedlaethol.

Er enghraifft, nid yw cyllid na chylch gwaith awdurdodau’r parciau cenedlaethol yn cwmpasu gwaith uniongyrchol i farchnata twristiaeth yn y parciau cenedlaethol, a dim ond Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sy’n sefydliad rheoli cyrchfan. Mae Arfordir Penfro ac Eryri yn cydweithio â’r cyrff lleol sy’n arwain yr agenda hon: Visit Pembrokeshire ar y naill law a Chyngor Gwynedd ar y llaw arall. I lwyddo, mae’r awdurdodau’n canolbwyntio’n bennaf ar ddylanwadu ar yr hyn y mae eraill yn ei wneud, ond nid yw hyn yn hawdd ac, yn aml, nid yw’n syml.

Ar ôl dwy flynedd o gyfnodau clo a chyfyngiadau, mae’n naturiol bod busnesau twristiaeth yn awyddus i annog ymwelwyr ac i elwa’n economaidd ar gynnydd mewn twristiaeth. Fodd bynnag, gall hyn roi pwysau ar seilwaith lleol a chreu problemau anfwriadol, fel tipio anghyfreithlon, parcio anghyfrifol ar ymyl y ffordd, cynnydd yn y perygl o ddamweiniau, cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac effaith andwyol ar gymunedau lleol ym mhob un o’r parciau cenedlaethol.

Mae ein hadroddiadau am dwristiaeth gynaliadwy yn awdurdodau pob un o’r tri pharc cenedlaethol yng Nghymru yn pwysleisio pa mor bwysig yw hi fod pob awdurdod yn cyfathrebu â’r cyhoedd ynghylch defnyddio’r parciau mewn ffordd gyfrifol. Er mwyn i’r gwaith hwn fod mor effeithiol â phosibl, dylai Llywodraeth Cymru, a sefydliadau perthnasol fel Cyfoeth Naturiol Cymru, ei gefnogi ar lefel genedlaethol, gan gydweithio ag awdurdodau’r tri pharc cenedlaethol.

Bu i bob un o’r tri pharc cenedlaethol dynnu sylw at broblemau parhaus sy’n bodoli ers tro o ran seilwaith lleol eu hardaloedd, yn enwedig o ran trafnidiaeth gyhoeddus, parcio ceir, llwybrau teithio llesol integredig, ac ymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol. Serch hynny, mae llawer o’r cyfrifoldebau statudol dros ymateb i’r materion hyn yn cael eu hysgwyddo gan bartneriaid, yn enwedig yr awdurdodau lleol a/neu’r heddlu, neu dirfeddianwyr preifat, ac yn aml nid oes llawer y gall yr awdurdodau eu hunain ei wneud yn uniongyrchol.

Fodd bynnag, nid yw cyrff cyhoeddus eraill yn aml yn gallu ymateb yn effeithiol ac yn gyson oherwydd pwysau ar adnoddau a phwysau o fath arall. Ac mae llawer o dirfeddianwyr preifat yn canolbwyntio cymaint, os nad mwy, ar gynhyrchu incwm yn hytrach na rheoli effaith twristiaeth ar yr amgylchedd lleol. Oherwydd cyfyngiadau cyfrifoldebau statudol awdurdodau’r parciau cenedlaethol, nid oes neb yn aml yn rhoi sylw i’r materion hyn, ac maent yn parhau i achosi problemau, yn enwedig mewn cymunedau lleol. Gan fod twristiaeth yn tyfu o flwyddyn i flwyddyn, mae’n amlwg y bydd y broblem hon yn dwysáu.

Dywedodd awdurdodau pob un o’r tri pharc cenedlaethol wrthym nad yw cylch cyllido blynyddol Llywodraeth Cymru’n caniatáu iddynt baratoi cynlluniau hirdymor ar gyfer seilwaith i gefnogi twristiaeth gynaliadwy, na buddsoddi ynddo.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg.